# Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Drwyddedu Mandadol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru

## Ebrill 2023

### 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn hyrwyddo iechyd, diogelwch a lles cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd trwy godi safonau rheoleiddio a chofrestriad pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal. Rydym yn gorff annibynnol, sy'n atebol i Senedd y Deyrnas Unedig. Ceir rhagor o wybodaeth am ein gwaith a dull o weithredu ar www.professionalstandards.org.uk

1.2 Yn rhan o'n gwaith, rydym yn:

- Goruchwylio'r deg rheolydd gweithwyr iechyd a gofal ac yn adrodd yn flynyddol i'r Senedd ar eu perfformiad
- Achredu cofrestrau ymarferwyr gofal iechyd mewn galwedigaethau nad ydynt wedi eu rheoleiddio gan dan y gyfraith rwy'r rhaglen Cofrestrau Achrededig
- Cyflawni ymchwil ac yn cynghori pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig ar welliannau mewn rheoleiddio
- Hyrwyddo rheoleiddio cyffyrddiad cywir a chyhoeddi papurau ar bolisi ac ymarfer rheoleiddio.

### 2. Sylwadau cyffredinol

2.1 Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drwyddedu triniaethau arbennig yng Nghymru. Rydym yn hapus i unrhyw ran o'n hymateb gael ei gyhoeddi. Fel y corff goruchwylio ar gyfer y rheolyddion gweithwyr gofal iechyd proffesiynol[1], a gyda chyfrifoldeb am redeg y rhaglen Cofrestrau Achrededig ar gyfer ymarferwyr heb eu rheoleiddio, rydym yn cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â rhai o'r risgiau sy'n weddill sy'n gysylltiedig â chynnal triniaethau arbennig.[2]

2.2 Fodd bynnag, wrth ddatblygu'r cynllun, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn llawn sut y bydd trwyddedu'n rhyngweithio â'r dulliau presennol o roi sicrwydd, gan gynnwys rheoleiddio statudol a chofrestru gwirfoddol drwy'r rhaglen Cofrestrau Achrededig. Mae hyn yn cynnwys nodi unrhyw gymhellion gwrthnysig posibl neu ganlyniadau anfwriadol a grëir gan y cynllun arfaethedig. Bydd hyn hefyd yn bwysig wrth ystyried unrhyw estyniadau i'r cynllun yn y dyfodol, er enghraifft, wrth gyflwyno ystod ehangach o weithdrefnau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol.

[1] Y naw rheolydd gofal iechyd proffesiynol a rheoleiddiwr gwaith cymdeithasol Lloegr.
[2] Gan gynnwys aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio.

### Trwyddedu triniaethau arbennig o fewn y dirwedd reoleiddiol bresennol

2.3 Fel y mae'r ddogfen ymgynghori'n ei nodi, ar hyn o bryd mae'n agored i weithwyr proffesiynol a reoleiddir ac ymarferwyr heb eu rheoleiddio i gynnal y triniaethau arbennig a fydd o fewn cwmpas y cynllun trwyddedu newydd.

2.4 Yn ogystal â'r gofynion presennol yng Nghymru ar gyfer cofrestru Awdurdod Lleol o dan Ddeddf 1982, bydd y grŵp hwn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sydd wedi'u cofrestru gydag unrhyw un o'r rheolyddion proffesiynol iechyd a gofal statudol a'r rhai sydd ar gofrestr wirfoddol, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u hachredu gan yr Awdurdod o dan y rhaglen Cofrestrau Achrededig, megis Cyngor Aciwbigo Prydain (BAcC). Mae Cofrestrau Achrededig yn darparu mecanwaith i godi safonau ymhlith y gweithlu heb ei reoleiddio ac yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a chyflogwyr bod ymarferwyr yn bodloni safonau addysg a hyfforddiant penodol, yn cydymffurfio â chodau ymarfer ac yn hyrwyddo mynediad at fecanweithiau cwyno priodol.[3]

2.5 Mae rhai o'r gweithdrefnau o fewn y cwmpas yn cael eu hymarfer ar hyn o bryd gan ymarferwyr ar gofrestrau rydym yn eu hachredu. Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnig caniatáu esemptiad (diffiniedig) o ofynion trwyddedu ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi'u cofrestru'n statudol ond nid ar gyfer y rheini sydd wedi'u cofrestru'n wirfoddol gyda sefydliad sydd wedi'i achredu o dan y rhaglen Cofrestrau Achrededig.

2.6 Rydym yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r dull o ymdrin ag esemptiadau a sut y bydd y cynllun yn rhyngweithio â ffurfiau rheoleiddio statudol ac anstatudol presennol. Er nad yw aelodaeth o Gofrestr Achrededig yn orfodol, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai esemptiad ar gyfer rhai aelodau o'r grŵp hwn yn bosibl er mwyn osgoi creu cymhellion gwrthnysig. Gallai hyn gynnwys cael y canlyniad anfwriadol o beidio â chymell aelodaeth o Gofrestrau Achrededig yn sgil cyflwyno haenau ychwanegol o faich rheoleiddiol. Rydym wedi darparu rhagor o wybodaeth am y pwynt hwn yn ein hatebion i gwestiynau 8-12.

### Materion allweddol eraill

2.7 Rydym wedi cefnogi trwyddedu yn y gorffennol fel dewis cymesur yn lle rheoleiddio statudol. Rydym yn croesawu ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r opsiwn hwn fel mecanwaith amgen mwy hyblyg i reoli'r risgiau a nodwyd, yn amodol ar yr ymholiadau a godwyd gennym uchod ynghylch sut y bydd y cynllun arfaethedig yn cyd-fynd â'r fframweithiau rheoleiddio presennol ac yn osgoi canlyniadau anfwriadol negyddol.

2.8 Mae rhai ymholiadau ychwanegol ynghylch gweithredu'r cynllun trwyddedu yn ymarferol yn cynnwys:

- Gorfodi'r cynllun trwyddedu – ni fydd y cynllun trwyddedu'n effeithiol wrth fynd i'r afael ag arferion gwael oni bai bod Llywodraeth Cymru yn glir ynghylch pam nad yw'r mecanweithiau presennol sydd ar gael i awdurdodau lleol (e.e. is-ddeddfau enghreifftiol) wedi'u defnyddio hyd yma

[3] Ein gwaith gyda chofrestrau achrededig: https://www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/accredited-registers

a sut y bydd y cynllun arfaethedig yn mynd i'r afael â hyn. Gan ei bod yn amlwg y bydd dibyniaeth fawr ar adrannau gorfodi awdurdodau lleol ar gyfer y cynllun trwyddedu, bydd yn bwysig deall yn llawn a yw diffyg gweithredu hyd yma o ganlyniad i bwerau annigonol neu ddiffyg adnoddau i orfodi. Os mai'r olaf, gall y cynllun newydd fod yr un mor aneffeithiol wrth fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd oni bai bod adnoddau wedi'u gwarantu. Byddai'n ddefnyddiol deall a fydd cyllid a dderbynnir o'r ffioedd ar gyfer y cynllun yn cael ei glustnodi at ddibenion gorfodi.

- Cysondeb ar draws y DU – rydym yn cydnabod bod Cymru wedi mabwysiadu dull penodol o ddatblygu cynllun sy'n canolbwyntio i ddechrau ar weithdrefnau penodol yn wahanol i Loegr a'r Alban sy'n datblygu cynlluniau ehangach sy'n canolbwyntio ar driniaethau cosmetig nad ydynt yn llawfeddygol. Yn ein barn ni, mae er budd y cyhoedd a allai gyrchu gwasanaethau mewn gwahanol rannau o'r DU ac ymarferwyr i gael chwarae teg yn fras o ran gofynion ar draws y gwahanol gynlluniau. Byddem yn annog holl wledydd y DU sy'n datblygu cynlluniau o'r fath i weithio'n agos gyda'i gilydd i sicrhau dull cyson cyn belled ag y bo modd.

## 3. Sylwadau manwl

3.1 Dim ond lle mae gennym farn neu arbenigedd penodol i'w gyfrannu yr ydym wedi darparu atebion i'r cwestiynau.

### Cwestiynau'n ymwneud â 7: esemptiadau

***Cwestiwn 8 – – Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau i gyfyngu ar esemptiadau i aelodau'r cyrff proffesiynol a restrir yn adran 60?***

3.2 Rydym yn cefnogi'r bwriad i gyfyngu ar yr haenau o reoleiddio ychwanegol a wynebir gan weithwyr proffesiynol â chymwysterau priodol a reoleiddir yn statudol sy'n cynnal triniaethau arbennig. Fodd bynnag, cytunwn y byddai'n rhesymegol gwneud rheoliadau i ddiffinio'n fwy cyfyng yr aelodau hynny o gofrestr broffesiynol statudol a ddylai allu hawlio esemptiad fel yr amlinellir yn y ddogfen ymgynghori.

3.3 Gan fod mwyafrif y gweithwyr proffesiynol a reoleiddir yn statudol yn cael eu rheoleiddio ar sail eu rôl nid ar y gweithgareddau y maent yn eu cyflawni, gellid ystyried bod esemptiad cyffredinol yn groes i ddiben y cynllun i ofyn am lefel ofynnol o gymhwyster/hyfforddiant ar gyfer y rhai sy'n cyflawni triniaethau arbennig (yn dibynnu ar yr hyn a fernir yn dystiolaeth ddigonol o gymhwysedd y tu hwnt i'r cymhwyster rheoli heintiau lefel 2 a bennir).

3.4 Nodwn, hyd yn oed gyda'r meini prawf a amlinellir yn 7.3 o'r ddogfen ymgynghori[4], ei bod yn debygol y bydd cryn dipyn o annibyniaeth i weithwyr

[4] O'r ddogfen ymgynghori: 7.3 - **Rydym yn cynnig na ddylid** rhoi esemptiad cyffredinol ar gyfer **pob un** o'r pedair triniaeth arbennig i aelodau proffesiwn a reoleiddir gan y cyrff hyn a enwir o dan a60(2), ond y dylid gwneud rheoliadau i gyfyngu ar eu hesemptiad(au) fel a ganlyn:

proffesiynol benderfynu a oes ganddynt ddigon o arbenigedd neu a yw cynnal y weithdrefn o fewn eu cwmpas. Nid yw'n glir o'r cynigion i ba raddau y bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol asesu tystiolaeth o gymhwysedd ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am esemptiad yn wahanol i'r rhai sy'n gwneud cais am drwydded a sut y caiff cymhwysedd ei ddiffinio.

3.5 Mae'n ofynnol i weithwyr proffesiynol a reoleiddir yn statudol ddangos eu bod yn gymwys i gyflawni'r gweithdrefnau y maent yn eu dilyn. Fodd bynnag, gan fod gweithdrefnau arbennig yn debygol o ddisgyn y tu allan i gwmpas eu haddysg a hyfforddiant proffesiynol craidd, bydd yn bwysig i Awdurdodau Lleol edrych yn ofalus ar unrhyw dystiolaeth a ddarperir gan na fydd eu rheolydd proffesiynol yn sicrhau ansawdd y meysydd hyfforddi hyn yn gyffredinol.

3.6 Yn dibynnu ar sut y caiff cymhwysedd gofynnol ei ddiffinio a'i asesu, gallai hyn greu hynodrwydd yn y cynllun lle gall gweithwyr proffesiynol a reoleiddir yn statudol sydd â rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol wneud cais am esemptiad tra na fydd arbenigwyr â chymhwyster llawer uwch ar Gofrestr Achrededig (e.e. aciwbigwyr sydd angen cymhwyster lefel gradd) o bosibl.

3.7 Rydym yn cytuno â'r gofyniad i gael yswiriant indemniad priodol sy'n cwmpasu'r gweithdrefnau y bydd unigolyn yn eu cyflawni ond byddem yn awgrymu adolygu geiriad y maen prawf hwn i'w gwneud yn glir y dylai unigolion hunangyflogedig gael yswiriant indemniad gan ddarparwr cyfreithlon.

***Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylid gwneud rheoliadau o dan adran 69 i weithredu esemptiadau ar fangreoedd lle bydd aelodau esempt o'r cyrff proffesiynol hyn yn ymarfer?***

3.8 Rydym yn cytuno â'r egwyddor o gymhwyso esemptiad ar gyfer mangreoedd lle bydd gweithwyr proffesiynol esempt yn ymarfer, ar yr amod y byddant yn rhoi'r driniaeth arbennig o fewn y GIG neu mewn safle preifat a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

3.9 Fodd bynnag, rydym o'r farn y gallai'r esemptiad hwn fod yn berthnasol hefyd i ymarferwyr nad ydynt yn cael eu rheoleiddio'n statudol o dan amgylchiadau diffiniedig, gweler ein hateb i gwestiwn 12.

***Cwestiwn 10 – A yw'r egwyddorion hyn i esemptio unigolion a mangreoedd yn gwarchod iechyd a diogelwch y cleient i raddau digonol?***

3.10 Rydym yn cytuno'n fras y dylai'r egwyddorion esemptio amddiffyn diogelwch ac iechyd cleientiaid. Fodd bynnag, fel yr amlinellwyd yn ein hateb i gwestiwn

---

- Rhaid i'r unigolyn fod wedi'i gofrestru gyda chorff proffesiynol mandadol cymwys a reoleiddir
- Bod y driniaeth arbennig o fewn eu maes arbenigol ac yn cael ei hystyried 'o fewn y cwmpas', ac felly wedi'i indemnio gan y sefydliad y maent yn gweithio iddo, neu drwy hunan-indemniad os ydynt yn hunangyflogedig
- Bod y driniaeth arbennig yn cael ei rhoi o fewn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, neu wasanaeth gofal iechyd a reoleiddir yn breifat, a reoleiddir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)
- Os bydd yr unigolyn yn peidio â bod yn gofrestredig am unrhyw reswm, bydd ei esemptiad yn dod i ben, a bydd yn rhaid iddo gael trwydded triniaeth arbennig os yw am barhau i roi'r driniaeth arbennig honno.

8, yn dibynnu ar beth fydd y gofynion i Awdurdodau Lleol asesu tystiolaeth o gymhwysedd a ddarperir, mae’r meini prawf yn dal yn debygol o ganiatáu hyblygrwydd sylweddol i weithwyr proffesiynol hunanasesu a yw cynnal triniaethau arbennig yn dod o dan eu cwmpas ymarfer ac a oes ganddynt hyfforddiant digonol.

3.11 Yn gyffredinol, nid yw rheoleiddio proffesiynol statudol yn rheoleiddio’r tasgau y mae gweithwyr proffesiynol yn eu cyflawni, felly mater i’r gweithiwr proffesiynol yw ystyried a oes ganddo’r profiad a’r arbenigedd priodol. Gall hyn greu heriau i reolyddion proffesiynol wrth asesu a yw gweithiwr proffesiynol wedi gweithredu y tu allan i'w cymhwysedd.

3.12 Ar sail cynigion presennol, rydym yn nodi nad yw’n glir a fydd yn ofynnol i’r rhai sy’n gwneud cais am esemptiad ddangos tystiolaeth o’u cymhwysedd yn wahanol i’r rhai sy’n gwneud cais am drwydded. Awgrymwn y dylid ystyried y pwynt hwn ymhellach gan gynnwys sut y caiff tystiolaeth o gymhwysedd ei hasesu.

3.13 Rydym yn cytuno ei bod yn hollbwysig bod trefniadau indemniad yn cwmpasu’r gweithdrefnau penodol dan sylw.

***Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig hwn, sef y dylai'r proffesiynau a enwir sydd ar gofrestr statudol yr HCPC, sef ciropodyddion/podiatryddion; ffisiotherapyddion; prosthetyddion/orthotyddion fod yn esempt? A oes proffesiynau eraill ar y gofrestr hon a ddylai fod yn esempt?***

3.14 Nid oes gennym wybodaeth fanwl am ba broffesiynau ar gofrestr y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) sy'n fwy neu'n llai tebygol o gyflawni triniaethau arbennig o'r fath. Fodd bynnag, gan y bydd y rheoliadau’n amlinellu bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol sicrhau bod y driniaeth arbennig o fewn eu cymhwysedd a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol, yna nid ydym yn glir ynghylch y rhesymeg dros gyfyngu ar ba grwpiau o unigolion cofrestredig HCPC all wneud cais am esemptiad.

3.15 Fel y nodwyd uchod, mae rheoleiddio proffesiynol yn gyffredinol yn seiliedig ar reoleiddio’r rôl ac nid y tasgau y mae unigolyn yn eu cyflawni felly nid oes unrhyw resymeg benodol dros gyfyngu’r opsiwn o wneud cais am esemptiad i grwpiau penodol o weithwyr proffesiynol yn unig.

***Cwestiwn 12 – Ydych chi'n cytuno ag egwyddor y cynnig na ddylai aelodau o gofrestrau gwirfoddol wedi'u hachredu gan y PSA fod yn esempt?***

3.16 Na, nid ydym yn deall y rhesymeg dros beidio â chaniatáu esemptiad i aelodau o gofrestr wirfoddol a achredir gan yr Awdurdod Safonau Proffesiynol o dan ei raglen Cofrestrau Achrededig os yw esemptiadau i’w caniatáu ar gyfer gweithwyr proffesiynol a reoleiddir yn statudol.

3.17 Mae’r ddogfen ymgynghori’n nodi na ddylai esemptiad fod yn berthnasol oherwydd bod aelodaeth o Gofrestrau Achrededig yn wirfoddol, ond yn ein barn ni mae hyn yn amherthnasol. Pe bai ymarferydd esempt yn cael ei ddileu o’r Gofrestr Achrededig neu’n dewis gadael, yna byddai’n ofynnol yn

awtomatig iddo gael trwydded gan yr Awdurdod Lleol yn yr un modd ag y byddai gweithiwr proffesiynol a reoleiddir yn statudol pe na bai'n cael ei reoleiddio mwyach.

3.18 Fel y nodwyd yn ein hymateb i gwestiwn 8, yn dibynnu ar sut y caiff cymhwysedd gofynnol ei ddiffinio, gallai hyn greu hynodrwydd yn y cynllun lle gall gweithwyr proffesiynol a reoleiddir yn statudol sydd â rhywfaint o hyfforddiant ychwanegol wneud cais am esemptiad tra na fydd arbenigwyr â chymhwyster llawer uwch ar Gofrestr Achrededig (e.e. aciwbigwyr sydd angen gradd) o bosibl.

3.19 Rydym yn cydnabod efallai na fydd Llywodraeth Cymru am ganiatáu esemptiad cyffredinol i ymarferwyr ar Gofrestrau Achrededig. Fodd bynnag, rydym yn awgrymu y byddai'n bosibl pennu meini prawf penodol i nodi'r rhai sy'n gymwys ar gyfer esemptiad, yn yr un modd ag y mae'r ymgynghoriad yn cynnig meini prawf i'w cynnwys mewn rheoliadau ar gyfer gweithwyr proffesiynol a reoleiddir yn statudol a all hawlio esemptiad.

3.20 Yn ein barn ni, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn ystyried caniatáu rhyw fath o esemptiad ar gyfer ymarferwyr Cofrestrau Achrededig â chymwysterau priodol. Mae'r rhaglen Cofrestrau Achrededig wedi bod yn fecanwaith pwysig i godi safonau ymhlith ymarferwyr heb eu rheoleiddio ac mae'n caniatáu i'r cyhoedd a chyflogwyr ddewis ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ac sy'n cydymffurfio â safonau ymarfer clir.

3.21 Rydym yn cydnabod mai bwriad y cynllun trwyddedu hwn i raddau helaeth yw cynnwys yr ymarferwyr hynny nad ydynt yn destun unrhyw fath arall o reoleiddio a chodi safonau ar y pen isaf. Fodd bynnag, heb unrhyw newidiadau i'r cynllun gallai arwain at y canlyniad anfwriadol o annog pobl i beidio ag ymaelodi â Chofrestrau Achrededig oherwydd efallai na fydd ymarferwyr yn dymuno bod yn destun dwy haen o faich rheoleiddio sy'n gorgyffwrdd.

## 4. Rhagor o wybodaeth

4.1 Cysylltwch â ni os yr hoffech drafod unrhyw agwedd o'r ymateb hwn mewn manylder. Gallwch gysylltu â ni yn:

**Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
157-197 Buckingham Palace Road
Llundain SW1W 9SP

E-bost: policy@professionalstandards.org.uk
Gwefan: www.professionalstandards.org.uk
Ffôn: 020 7389 8030